UK Government
Llywodraeth y DU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Ken Skates MS/AS**
Minister for Economy, Transport, and North Wales
Gweinidog yr Economi, Trafnidaeth, a Gogledd Cymru
T: 0300 060 4400
E: Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

3 Rhagfyr 2020

Annwyl bawb,

**LLYTHYR AR Y CYD AT FUSNESAU CYMRU AR BARATOADAU AR GYFER PONTIO'R UE**

Mae'r DU wedi gadael yr UE. Ar 31 Rhagfyr, daw y Cyfnodo Pontio I ben a byddwn yn gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.

Bydd rheolau newydd ar gyfer gwneud busnes gyda'r UE yn dechrau ar 1 Ionawr 2021. Bydd newidiadau y bydd yn rhaid i fusnesau baratoi ar eu cyfer. Mae amser yn mynd yn brin. Mae angen ichi baratoi eich busnes nawr.

Mae ein dwy lywdraeth wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi busnesau yng Nghymru i baratoi, ac mae rhai doleni allweddol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi eu cynnwys yn y llythyr hwn.

Mae camau y mae angen i'ch busnes eu cymeryd ac mae canllawiau a chymorth ar gael ar:

- **GOV.UK/transition**
- **https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/**
- Bydd yn rhaid i'ch busnes wneud newidiadau i sicrhau bod llif pobl, data, nwyddau a gwasanaethau yn parhau rhwng y DU a'r UE. Mae angen y camau hyn ar fusnesau yng Nghymru ac ar draws y DU: Os ydych yn gwerthu nwyddau i'r UE mae'n rhaid ichi baratoi ar gyfer gweithdrefnau tollau newydd.
- Os ydych yn teithio i'r UE ar gyfer gwaith bydd angen ichi sicrhau a fyddwch angen fisa neu drwydded waith a gwneud cais os oes angen.
- Os ydych yn cyflogi gwladolion tramor byddwch angen fisa neu drwydded waith a a gwneud cais os oes angen.
- Os ydych yn fusnes yn y DU neu sefydliad sy'n derbyn data personol o gysylltiadau yn Ardal yr Undeb Ewropeaidd, efallai y bydd angen ichi gymryd camau ychwanegol i sicrhau y gall y data barhau i lifo'n gyfreithiol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Ken Skates MS/AS**
Minister for Economy, Transport, and North Wales
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth, a Gogledd Cymru
T: 0300 060 4400
E: Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

- Os ydych yn darparu gwasanaethau i'r UE, mae'n rhaid ichi sicrhau bod eich cymwysterau bellach yn cael eu cydnabod gan reoliadau yr UE er mwyn gallu ymarfer neu wasanaethu cleientiaid yn yr UE.

Rydym yn deall yr effaith y mae Covid-19 wedi ei gael ar allu busnesau i baratoi. Fe wyddom nad yw bob amser yn hawdd i gynllunio ymlaen llaw o ystyried yr heriau yr ydych yn eu hwynebu bob diwrnod. Ond mae mwy a mwy o fusnesau yng Nghymru yn gwneud paratoadau er mwyn bod yn barod, a gyda llai na mis yn weddill tan ddiwedd y Cyfnod Pontio, ein cais yw eich bod yn treulio amser nawr i baratoi eich busnes.

Byddwn yn cynnal gweminar ar y cyd i drafod yn uniongyrchol gyda busnesau yng Nghymru ynghylch yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw ar ddiwedd y Cyfnod Pontio. Caiff ei gynnal ar **10 Rhagfyr 2020, 11.30am – 12.15pm** a cewch gofrestru ar https://www.eventbrite.co.uk/e/eu-transition-discussion-with-both-uk-and-welsh-government-tickets-131464123733. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi yno.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Ken Skates AS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth, a Gogledd Cymru

UK Government
Llywodraeth y DU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rt Hon Simon Hart MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
T: 0292 092 4216
E: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Ken Skates MS/AS**
Minister for Economy, Transport, and North Wales
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth, a Gogledd Cymru
T: 0300 060 4400
E: Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

***Diwedd y Cyfnod Pontio: Camau i'w Cymryd a Chanllawiau i Chwilio Amdanynt***

| ***Pwnc*** | ***Cam*** | ***Canllawiau*** |
|---|---|---|
| **Busnesau sydd â staff yn gweithio rhwng y DU a'r UE** | Os ydych yn teithio i'r UE ar gyfer gwaith wedi'r 31 Rhagfyr 2020 efallai y byddwch angen fisa neu drwydded waith. Ewch i **GOV.UK/transition** i wybod beth sydd angen ichi ei wneud. | https://www.gov.uk/visit-europe-1-january-2021/business-travel-extra- requirements |
| **Busnesau sy'n cyflogi staff o'r UE** | • Mae symud yn rhydd yn dod i ben ac mae'r DU yn cyflwyno system fewnfudo newydd yn seiliedig ar bwyntiau.<br>• Mae'r ffordd yr ydych yn cyflogi o'r UE yn newid.<br>• O'r 1 Ionawr 2021, os ydych am gyflogi rhywun o'r tu allan i'r DU mae'n rhaid ichi fod yn noddwr sydd wedi eich trwyddedu gan y Swyddfa Gartref. Mae hyn yn cynnwys recriwtio pobl o'r UE.<br>• Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n dod i'r DU i weithio fod wedi cael cynnig swydd gan noddwr trwyddedig ymlaen llaw a bydd angen bodloni meini prawf sgiliau a chyflog penodol.<br>Dod i wybod mwy ar **GOV.UK** | https://www.gov.uk/government/publications/uk-points-based-immigration-system-employer-infor-mation/the-uks-points-based-immigration-system-an-introduction-for-employers<br><br>[https://llyw.cymru/paratoi-cymru/dinasyddion-yr-ue](https://llyw.cymru/paratoi-cymru/dinasyddion-yr-ue) |

| | | |
|---|---|---|
| **Busnesau sy'n trosglwyddo data rhwng y DU a'r UE** | Paratoi ar gyfer rheolau newydd ynghylch data personol. Os ydych yn derbyn data personol gan yr UE ar gyfer busnes, efallai y bydd angen ichi gymryd camau ar ddiogelu data. Cewch wybod mwy ar **GOV.UK/transition**. | https://www.gov.uk/guidance/using-personal-data-after-brexit |
| **Busnesau sy'n mewnforio ac yn allforio nwyddau.** | Er mwyn parhau i fasnachu gyda'r UE wedi'r 31 Rhagfyr 2020, bydd angen ichi ddilyn rheolau newydd ar gyfer allforio, gan gynnwys newidiadau i brosesau a thrwyddedu. Ewch i **GOV.UK/transition** i ddod i wybod beth sydd angen i chi ei wneud.<br>Gallech:<br>• Gael rhif EORI os nad oes gennych un eisoes.<br>• Penderfynu sut yr ydych am wneud datganiadau tollau ac a ydych angen i rhywun i ddelio â'r adran dollau. | https://www.gov.uk/eori<br>https://www.gov.uk/guidance/appoint-someone-to-deal-withcustoms-on-your-behalf<br>https://www.gov.uk/prepare-toexport-from-great-britain-fromjanuary-2021<br>https://www.gov.uk/guidance/helpand-support-if-your-businesstrades-with-the-eu |
| **Busnesau sy'n darparu gwasanaethau rhwng y DU a'r UE** | Gwnewch yn siŵr bod eich staff yn gallu parhau i ymarfer a darparu gwasanaethau i gleientiaid yn y DU wedi'r 31 Rhagfyr 2020 drwy sicrhau bod eu cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol yn cael eu cydnabod gan eu corff proffesiynol yn y DU. Ewch i **GOV.UK/transition** ddod i wybod beth i'w wneud. | https://www.gov.uk/guidance/getyour-eea-qualification-recognisedin-the-uk-from-1-january-2021 |

| | | |
|---|---|---|
| **Teithio i'r UE** | O'r 1 Ionawr 2021 bydd rheolau newydd i deithio i Ewrop. Mae yr hyn y bydd angen ichi eu gwneud cyn mynd yn cynnwys:<br>• Edrych a yw eich pasbort yn ddilys.<br>• Trefnu i gael yswiriant teithio gofal iechyd.<br>• Edrych a oes gennych y dogfennau teithio iawn.<br>• Trefnu i deithio gyda'ch anifail anwes – cysylltu â'ch milfeddyg cyn ichi fynd.<br>• Edrychwch ar bolisïau trawsrwydweithio gyda'ch darparwr symudol cyn teithio. | https://www.gov.uk/visit-europe-1 - january-2021 |
| **Aros yn y DU os ydych yn ddinesydd yr UE** | Edrychwch a oes angen ichi wneud cais ar gyfer cynllun setliad yr UE (EUSS) os ydych chi neu eich teulu o'r UE, neu'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein. | https://www.gov.uk/staying-uk-eu-citizen<br><br>https://llyw.cymru/paratoi-cymru/dinasyddion-yr-ue |

| | | |
|---|---|---|
| **Parhau i fyw neu weithio yn yr UE** | Mae byw a gweithio yn yr UE, EFTA yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir ac Iwerddon yn dibynnu ar y rheolau yn y wlad honno:<br>• Efallai y bydd angen ichi gofrestru neu wneud cais i breswylio yn y wlad.<br>• Dylech wneud yn siŵr bod gennych ofal iechyd yno.<br>• Efallai y byddwch hefyd angen newid eich trwydded yrru y DU am drwydded sy’n cael ei chyhoeddi gan y wlad yr ydych yn byw ynddi o fewn yr UE. | https://www.gov.uk/uk-nationals-living-eu |